



GAWN NI DDECHRAU ETO PLÎS?

Llythyr Bugeiliol ar gyfer Teulu Asaph, 4 Mai 2020

Oddi wrth Esgob Gregory

Nid y Beibl, ond Jesus Christ Superstar. Pan aeth Lloyd Webber a Rice â'u sioe yn seiliedig ar Ddioddefaint Iesu i'r West End, roedden nhw wedi ysgrifennu cân newydd ar gyfer y cynhyrchiad. Roedd yn cael ei chanu gan Mair Magdalen ychydig ar ôl i Iesu cael ei arestio ac mae pethau'n chwalu allan o reolaeth. Mae Mair yn cael cip o Iesu yn ystod y treial ac yn cael ei fflangellu ac mae'n canu:

Rwy'n meddwl dy fod wedi gwneud dy bwynt nawr
Rwy'ti hefyd wedi mynd braidd yn rhy bell wrth ddweud be di be
Cyn i bethau fynd yn llawer gwaeth, beth am roi'r gorau iddi
Felly, gawn ni ddechrau eto, plîs?

Fe welais y sioe unwaith eto yn ddiweddar, ar y cynhyrchiad fideo a oedd wedi'i osod ar You Tube yn ystod penwythnos y Pasg. Mae'n gân ingol, mae'n ein hatgoffa, pan fydd pethau'n mynd allan o reolaeth, ein bod ni i gyd yn tueddu i ail ystyried beth ydym ni wedi'i wneud a phendroni sut y gallen ni fod wedi'u gwneud yn wahanol. Mae yna hefyd ddimensiwn o Dduw, o alw ar y Tad a gofyn i bethau fod yn wahanol.

Wel, y newyddion da yw y gallai pethau fod yn wahanol. Gyda Duw, mae yna gyfle i aildechrau bob amser. Dyma yw edifeirwch, sy'n codi ei ben yn eithaf aml yn neges yr ysgrythur. Roeddwn i'n ysgrifennu yr wythnos diwethaf fod Iesu o'n blaen ni, yn ein dyfodol, a bod Duw yn ein galw i edifeirwch a ffydd – i ddechrau eto – yn ein disgyblaeth, yn ein cymdeithas ac yn ein ffydd.

Daw'r alwad gyntaf i edifeirwch gyda bedydd, pan fyddwn ni'n cael ein galw i ddiosg yr hen dillad a gwisgo rhai newydd, rhai Teyrnas Dduw. Mae Anglicanwyr yn dewis, fel llawer o Gristnogion eraill, gwneud hynny ar ran eu plant, yn eu bedyddio er mwyn iddyn nhw cael eu hawlio ar gyfer Teyrnas Duw o dyddiau cynharaf eu bywydau. Nid bod hyn yn datblygu'n ôl y disgwyl bob tro, er, yn aml, mae gan gan gariad Duw ffordd o dreiddio yn annisgwyl. Cymerodd bymtheg mlynedd i'm ffydd fedyddiol ddod yn fyw ac rwy'n dal yn gorfod troi at Grist a dechrau eto o dro i dro. Mae edifeirwch yn ffordd o fyw, o ddod â'n hunain yn ôl at Dduw pob tro. "Gad i mi, O Arglwydd, wneud dechreuad go iawn heddiw, oherwydd nid yw'r hyn rwyf wedi'i wneud hyd yma ond bron iawn ddim." oedd y weddi a ysgrifennwyd gan Thomas a Kempis, un o'r ysgrifenydd mawr ysbyrdol yn niwedd y canol oesoedd, ac mae'n adlewyrchu ysgrifau Sant Paul yn yr ysgruthyr:

Fy nod yw ei adnabod ef, a grym ei atgyfodiad, a chymdeithas ei ddioddefiadau, wrth gael fy nghydfurfio â'i farwolaeth ef, er mwyn i mi, os yw'n bosibl, gyrraedd yr atgyfodiad oddi wrth y meirw. Nid fy mod eisoes wedi cael hyn, neu fy mod eisoes yn berffaith, ond yr wyf yn prysuro ymlaen, er mwyn meddiannu'r peth hwnnw y cefais innau er ei fwyn fy meddiannu gan Grist Iesu. Frodyr, nid wyf yn ystyried fy mod wedi ei feddiannu; ond un peth, gan anghofio'r hyn sydd o'r tu cefn ac ymestyn yn daer at yr hyn sydd o'r tu blaen, yr wyf yn cyflymu at y nod, i ennill y wobr y mae Duw yn fy ngalw i fyny ati yng Nghrist Iesu. Pob un ohonom, felly, sydd o nifer y rhai aeddfed, dyma sut y dylai feddwl. (*Phil.3.10-15*)

Rwyf eisiau ysgrifennu ymhellach ynghylch beth allai edifeirwch ei olygu i'n cymdeithas ac i'n Heglwysi, ond am rŵan, gadewch i ni ganolbwyntio ar ble mae'r holl newid yn dechrau, gyda newid yn y galon. Mae Coronafeirws wedi stopio'n bywydau a'n prysurdeb. Mae wedi atal ein defodau cyhoeddus, yn ein haddoli, yn ein siopa neu yn ein cymdeithasu. Ond mae yna ddal amser i droi at Dduw ac i feddwl sut i wneud ein ffydd yn wahanol. Pe byddai Iesu'n ein galw am y tro cyntaf heddiw, beth fydden ni eisiau ei wneud yn wahanol? Gawn ni ddechrau eto plîs? Boed i'r Arglwydd eich bendithio gyda'r cyfle i ail osod eich ffydd eich hunain yn y tymor hwn sydd wedi mynd oddi ar ei echel.

+gregory/melny